

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor 28/3/2023 am 7yh

Minutes of the Full Council Meeting held 28/3/2023 at the Town Council Chamber at 7pm

Presennol/Present: Gareth Winston Roberts OBE, Myrddin Owens, Gordon Warren, Gareth Thomas, Julie Edwards, Veronica Holdsworth, Meg Roberts, Gerry Belanger, Geraint Thomas, Cyng/Cllr Aled Morris Jones

Ymddiheuriadau/Apologies: Llinos Knowles Williams, Nina Bulkeley, Alan Wood, Derek Owen

Wrth Law/In Attendance: Hywel Hughes (cyfieithu/ translation), Carli Evans Thau (clerc/clerk)

1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies

Bu Gareth Winston Roberts gadeirio'r cyfarfod a chroesawu pawb yn bresennol.

Gareth Winston Roberts chaired the meeting and welcomed all present.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Dim/None

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf; cynnig Myrddin Owens, eilio Meg Roberts.

Minutes of the last meeting were approved; proposed Myrddin Owens, seconded Meg Roberts.

4 Materion yn Codi / Matters Arising

- 4.1 Cadarnhawyd byddai cynnal sesiynnau hyfforddiant Cod Ymddygiad o'r Siambr, y clerc i gadarnhau dyddiadau ond anelu am wythnos cyntaf Mai a Mehefin. Bu atgoffa'r aelodau ei fod yn orfodol eu bod yn mynychu'r cwrs yma.

It was confirmed that Code of Conduct training sessions would be held from the Chamber, the clerk to confirm dates but aiming for the first week of May and June. The members were reminded that it is compulsory that they attend this course.

- 4.2 Prosiectau Economaidd – bu nodi bod cyfarfod Trefi Mon wedi ei ohurio, pwysleiswyd pwysigrwydd cydweithio er budd yr ardal, ar brosiectau economaidd a gyda'r heddlu.

Economic Projects - it was noted that the Trefi Mon meeting had been postponed, the importance of working together for the benefit of the area, on economic projects and with the police, was emphasised.

- 4.3 Comisiynydd yr Heddlu – ni fu unrhyw wybodaeth pellach yn dilyn y cyfarfod yn ol ddechrau Chwefror. Y clerc i gysylltu a'i swyddfa i'w hatgoffa bod angen atebion.

Police Commissioner - there was no further information following the meeting at the beginning of February. The clerk to contact his office to remind them that answers are needed.

- 4.4 Gwaith Priffyrdd – bu nodi bod y gwaith i wella hygyrchedd wedi cyrraedd safle bws Lon Goch erbyn hyn. Nodwyd bod cwynion am y goleuadau traffig a bu nodi siom nad oedd yn hytrach diolch am y gwaith da oedd yn cael ei gwblhau.

Highway Works - it was noted that the work to improve accessibility has now reached the Lon Goch bus stop. It was noted that there were complaints about the traffic lights and there was disappointment that there was no thanks for the good work that was being completed.

- 4.5 Coeden 'Copper Writers' - mae coeden yn rhodd i'r dref, ac i'w blannu ym Mharc Lon Goch, Gordon Warren i gydlynnu ei blannu.

'Copper Writers' tree - a tree has been gifted to the town, and is to be planted in Parc Lon Goch, Gordon Warren to coordinate its planting.

- 4.6 Perchnogaeth y Gardd Goffa (Oval) – bu'r clerc gadarnhau bod CSYM a'r Eglwys yn edrych i fewn i'r mater.

Ownership of the Memorial Garden (Oval) - the clerk confirmed that the IACC and the Church are looking into the matter.

- 4.7 Bu Meg Roberts gadarnhau bod planhygion wedi eu harchebu ar gyfer eu plannu drwy'r dref. *Meg Roberts confirmed that plants had been ordered for planting throughout the town.*

- 4.8 Cafwyd ymateb i lythyrau oedd wedi eu dosbarthu i drigolion Craig y Don, y clerc i ofyn i'r heddlu fonitro y caeau chwarae a chadw golwg.

There was a response to letters that had been distributed to the residents of Craig y Don, the clerk to ask the police to monitor the playing fields and keep an eye.

- 4.9 Cafwyd cadarnhad bod y sbwriel wedi ei symud o'r rheilffordd ger safle'r Octel erbyn hyn. *It has now been confirmed that the rubbish has been removed from the railway near the Octel site.*

- 4.10 Cafwyd wybod byddai'r heddlu mewn cysylltiad wedi Pasg am ddatganiad yn ymwneud a dwyn cennin pedr o ymyl y ffordd.

It was learned that the police would be in contact after Easter for a statement relating to the theft of daffodils from the roadside.

- 4.11 Cafwyd ddiweddariad gan Aled Morris Jones yn dilyn cyfarfod mewnol am wasanaethau bws yr ardal.

An update was given by Aled Morris Jones following an internal meeting about bus services in the area.

5 Pwyllgorau Allanol / External Meetings

- 5.1 Nododd Myrddin Owens bod Llywodraethwyr yr Ysgol Gynradd yn cwrdd heno ac nad oedd wedi gallu mynychu.

Myrddin Owens noted that the Governors of the Primary School were meeting this evening and that he had not been able to attend.

- 5.2 Bu'r clerc nodi ei bod wedi anfon copi o gyflwyniad a wnaed mewn gweithdy i drafod opsiynnau posib i daclo llifogydd yn yr Afon Goch. Nid oes cynlluniau cadarn nac arian wedi ei glustnodi ar gyfer unrhyw waith. Cytuno anfon y wybodaeth at Rhun ap Iorwerth a gofyn iddo ddilyn y mater i fynu gan y byddai yn gallu effeithio ar bolisiau yswiriant trigolion a busnesau lleol.

The clerk noted that she had sent a copy of a presentation made at a workshop to discuss possible options to tackle flooding of the Afon Goch. There are no firm plans or money earmarked for any work. Agree to send the information to Rhun ap Iorwerth and ask him to follow the matter up as it could affect the insurance policies of local residents and businesses.

- 5.3 Nodwyd pryder nad oedd aelod wedi mynychu cyfarfodydd y Cyngor ers bron i chwe mis, ac felly heb adrodd yn ol yn dilyn cyfarfodydd Grwp Defnyddwyr Porth Amlwch. Bu cydnabod bod Noel Kerr wedi ei benodi dros dro yn lle Alan Wood. Mae dau gynghorwr yn cynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor. Cytuno yn unfrydol penodi cynrychiolwr newydd yn y cyfarfod nesaf.

Concern was noted that a member had not attended Council meetings for almost six months, and therefore had not reported back following Amlwch Port User Group meetings. It was acknowledged that Noel Kerr had been appointed temporarily to replace Alan Wood. Two councillors represent the Council on the Committee. Unanimously agree to appoint a new representative at the next meeting.

6 Adroddiad Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report

Cafwyd grynoded gan Myrddin Owens o'r hyn drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Nodwyd bod nifer o daliadau wedi eu cymeradwyo yn ol yr arfer. Trafodwyd cais am gefnogaeth gan

Gwmni Theatr Eleth a bu argymell bod y Cyngor yn cyfrannu £500 tuag at yr achos. Trafodwyd cais hefyd gan unigolyn fydd yn ymweld a De Affrica gyda Cadetiaid y Fyddin. Nid yw'r Cyngor yn gallu cefnogi unigolion, ond bu'r Cadeirydd gytuno cyfrannu o'i lwfans blynyddol. Cafwyd grynodedb gan y Cadeirydd o'r hyn oedd wedi ei wario o'r lwfans blynyddol.

Cafwyd wybod bod Mon Fire Safety wedi adolygu'r asesiad risg blynyddol ac mae disgwyl copi p'r adroddiad. Bydd angen i unrhyw waith sy'n cael ei adnabod gael ei gwblhau cyn gynted a phosib.

Cadarnhawyd bod Myrddin Owens a'r clerc wedi cwrdd a'r cyfreithiwr i drafod y sefyllfa bresennol gyda'r prosiect ynni. Gobeithio gellir rhannu mwy o wybodaeth yn y cyfarfod nesaf.

Cadarnhawyd derbyn adroddiad yr archwiliwr allannol ar gyfer 2021-22 a bu diolch i'r clerc am ei gwaith.

Nodwyd bod Myrddin Owens ar ran y Pwyllgor yn ceisio trefnu cyfarfod gyda'r gweinidog economaidd, bydd Myrddin Owens, Gordon Warren a Gareth Winston Roberts yn cydweithio i drefnu cyfarfod gyda cynrychiolaeth o CSYM a chwmnïau lleol.

Myrddin Owens gave a summary of what was discussed at the Committee's last meeting. It was noted that a number of payments had been approved as usual. A request for support from Cwmni Theatr Eleth was discussed and it was recommended that the Council contribute £500 towards the cause. An application from an individual who will visit South Africa with the Army Cadets was also discussed. The Council is unable to support individuals, but the Chairman agreed to contribute from his annual allowance. The Chairman gave a summary of what had been spent from the annual allowance.

Mon Fire Safety has reviewed the annual risk assessment and a copy of the report is expected. Any work that is identified will need to be completed as soon as possible.

It was confirmed that Myrddin Owens and the clerk had met the lawyer to discuss the current situation with regard to the energy project. Hopefully more information can be shared at the next meeting.

The receipt of the external auditor's report for 2021-22 was confirmed and the clerk was thanked for her work.

It was noted that Myrddin Owens on behalf of the Committee is trying to arrange a meeting with the economic minister, Myrddin Owens, Gordon Warren and Gareth Winston Roberts will work together to organise a meeting with representation from IACC and local companies.

7 Materion Cynllunio / Planning Matters

7.1 Ceisiadau / Applications

- FPL/2022/126 Maes Ednyfed – gwrthwynebu'r cais i dynnu amodau, a chefnogi bod angen i'r datblygwr gyfrannu tuag at dai fforddiadwy. Bu diolch i CSYM am gadw at eu polisi. / *object to the application to remove the affordable housing clause, and support the need for contribution towards affordable housing. IACC were thanked for keeping to their policy.*

7.2 Penderfyniadau / Decisions

Cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn / IACC decisions were noted as follows:

- ADV/2023/21 Arwydd Maes Parcio / Car Park Sign – caniatáu/approved

8 Penodi cynrychiolaeth Clwb y Gorlan / To appoint Clwb y Gorlan Representative

Cytuno penodi cynrychiolydd yn y cyfarfod nesaf.

Agreed to appoint a new representative at the next meeting.

9 Cwestiynnau i'r Cynghorwyr Sirol / Questions to the County Councillors

Cafwyd ddiweddariad gan Aled Morris Jones am drafodaethau yn ymwneud a gwasanaethau trafndiaeth cyhoeddus yn yr ardal.

Cafwyd ddiweddariad gan Aled Morris Jones am gynlluniau CSYM i ddatblygu 12 uned fusnes yn y dref. Nodwyd bod angen gweithio gyda Safle Rehau i ddarparu unedau busnes i gefnogi busnesau'r ardal i ddatblygu. Mae'n bwysig cael balans rhwng y nifer a'r math o unedau sydd ar gael a'r angen.

Cafwyd wybod hefyd am gynlluniau posib i ddatblygu parc gwledig ym Mhorth Amlwch. Cymdeithas Elusennol Mon sydd berchen ar y tir, ond byddai angen i'r Cyngor Tref reoli a chynnal yr adnodd. Bydd angen trafodaethau manwl cyn dod i unrhyw benderfyniad cadarn. Mae trafodaethau hefyd am brosiectau posib eraill ym Mhorth Amlwch.

Bu diolch i'r tri aelod sirol am eu gwaith ar ran yr ardal gan nodi bod y newid yng nhefnogaeth yr aelodau ers mis Mai yn anhygoel.

Bu Gareth Winston Roberts nodi pryder am gyfleon gwaith ym Mon, bu holi am y sefyllfa bresennol yn ymwneud a gweithwyr asiant yn swyddfeydd CSYM. Nododd Aled Morris Jones ei fod eisioes wedi gofyn y cwestiwn yn Llangefni a'i fod wedi cael gwybod mai oddutu 30-40 o weithwyr asiant oedd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor Sir.

Aled Morris Jones gave an update on IACC's plans to develop 12 business units in the town. It was noted that there is a need to work with the Rehau Site to provide business units to support businesses in the area to develop. It is important to have a balance between the number and type of units available and the need.

Members were also informed about possible plans to develop a country park in Porth Amlwch. Cymdeithas Elusennol Mon own the land, but the Town Council would need to manage and maintain the facility. Detailed discussions will be required before any firm decision is reached. There are also discussions about other possible projects in Porth Amlwch.

The three county members were thanked for their work on behalf of the area noting that the change in members' support since May was incredible.

Gareth Winston Roberts noted concern about work opportunities in Mon and asked about the current situation regarding agent workers in the IACC offices. Aled Morris Jones noted that he had already asked the question in Llangefni and that he had been told that 30-40 agency workers were employed by the County Council.

10 Gohebiaeth / Correspondence

Cadarnhawyd bod unrhyw eitemau o ohebiaeth wedi eu hanfon at yr aelodau drwy ebost wrth eu derbyn.

It was confirmed that any items of correspondence had been sent to the members by email as they were received.

11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn 25/4/2023 am 7yh
The next Full Council meeting will be held 25/4/2023 at 7pm

Bu'r cyfarfod orffen am 19.55 / *The meeting closed at 19.55.*

Gareth Winston Roberts OBE
Cadeirydd / Chair
Cyngor Tref Amlwch Town Council

CET03/23